# Fframwaith Cywerthedd Asesu

2025 Fersiwn 1.0

Daw i rym: 1 Medi 2025

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 20 Tachwedd 2025 | Fframwaith Asesu 2018 | Diweddariad |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Y Gofrestrfa: Tîm Ansawdd a Safonau | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 19 Tachwedd 2025 | Bob 3 blynedd |

# Fframwaith Cywerthedd Asesu

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Gwybodaeth am y Ddogfen Hon

Mae'n bwysig ein bod yn ymdrechu i sicrhau cywerthedd mewn baich asesu, nid yn unig **o fewn modiwlau** ond hefyd **ar draws rhaglenni**. Mae'n hanfodol sicrhau bod nifer, swmp, amseriad a phwysoliad credydau'r asesiadau'n briodol er mwyn galluogi myfyrwyr i ddangos yn llwyddiannus eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu a fwriedir.

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â Chod Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch fel y mae'n berthnasol i Asesu (Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, 2018). Mae'n tynnu ar adolygiad o arferion cyfatebol ar draws sawl prifysgol yn y Deyrnas Unedig . Mae'n cyd-fynd â Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig Prifysgol Bangor.

Er mai **canllaw** yn hytrach na chyfres o reoliadau yw'r Fframwaith Cywerthedd Asesu hwn, fel rhan o brosesau Sicrhau Ansawdd gellid bod angen cyfiawnhad a chymeradwyaeth benodol i wyro oddi wrth gynnwys y ddogfen hon.

Er mwyn i'r canllaw hwn fod yn ddefnyddiol yn ymarferol, darperir enghreifftiau o gywerthedd asesu. Os oes math o asesiad sydd heb ei gynnwys fel enghraifft, dylid dilyn gweithdrefn gyffredinol i fesur y baich asesu (Atodiad 1).

Wrth i ddulliau asesu newydd ddod i'r amlwg o ganlyniad i arferion Gwella Ansawdd, bydd yr amrywiaeth o enghreifftiau a nodir yma'n ehangu'n unol â hynny. Trwy adolygu rheolaidd, y nod yw creu dogfen ddeinamig, berthnasol.

[1] Prifysgol Reading, Prifysgol Lerpwl, Prifysgol Aston, Prifysgol Ulster, Coleg Prifysgol Llundain (UCL), Prifysgol Birmingham, Prifysgol Loughborough, Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant

## Oriau Dysgu Tybiannol ac Amser Paratoi ar gyfer Asesiadau

1. Rydym yn cadw at y cysyniad o 'oriau dysgu tybiannol', sef mesur dirprwyol o bob agwedd ar lwyth gwaith sy'n gysylltiedig â rhaglen neu fodiwl. Tybir y gwneir deg awr o ymdrech am bob credyd (Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig Prifysgol Bangor). Mae'r tariff hwn yn cyd-fynd â'r ddogfen: Higher Education Credit Framework for England: Second Edition (QAA, 2021) yn ogystal â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a'r croesgyfeirio sydd ynddo â'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (ColegauCymru, 2019).

2. I'r myfyriwr, gall oriau dysgu tybiannol gynnwys sesiynau addysgu, paratoi ar gyfer dosbarthiadau, adolygu deunydd a addysgwyd iddynt, astudiaethau cefndirol annibynnol, ac amser paratoi ar gyfer asesiadau.

3. Awgrymir y dylai'r amser paratoi ar gyfer asesiadau fel rheol fod rhwng 20% a 25% o oriau dysgu tybiannol modiwl penodol (Tabl 1). Fodd bynnag, gellir cynyddu'r gyfran hon ar gyfer modiwlau sy'n cael eu hategu gan lai o oriau cyswllt na modiwlau sy'n cael eu cynnal yn y dosbarth e.e. projectau ymchwil, tiwtorialau academaidd ac ati.

4. Pan fo sesiynau addysgu'n ategu asesiad e.e. addysgu sgiliau technegol creu podlediad neu gasglu data yn y maes, fel rheol dylid cyfrif hyn yn yr amser addysgu, ac nid yn yr amser paratoi ar gyfer yr asesiadau.

5. Dim ond tybiannol (neu'n ddangosol) y gall amser paratoi ar gyfer asesiadau oherwydd fod oherwydd y ffactorau gwahaniaethol sydd i'w cael. Er enghraifft, o safbwynt myfyrwyr mae myfyrwyr yn gweithio ar gyflymder gwahanol ac yn dewis treulio gwahanol gyfnodau o amser yn paratoi ar gyfer asesiad. O safbwynt asesu, gall yr amser sy'n cael ei dreulio ar fathau eraill o 'oriau dysgu tybiannol', megis 'astudiaethau cefndirol annibynnol' fod yn sbardun i waith a gyflwynir i'w asesu. Serch hynny, gellir ystyried amser paratoi ar gyfer asesiadau fel yr amser tybiannol y mae myfyriwr yn ei neilltuo i asesiad o'r dechrau hyd ei gyflwyno.

*Tabl 1: Crynodeb o'r Oriau Dysgu Tybiannol a'r ystod gysylltiedig o amser paratoi ar gyfer asesiadau:*

| Credydau modiwlau | Oriau Dysgu Tybiannol | Amser paratoi ar gyfer asesiadau (20% i 25%) Oriau |
|---|---|---|
| 10 | 100 | 20 to 25 |
| 15 | 150 | 30 to 37.5 |
| 20 | 200 | 40 to 50 |
| 30 | 300 | 60 to 75 |
| 40 | 400 | 80 to 100 |
| 60 | 600 | 120 to 150 |

**Gofynion Penodol - Modiwlau**

**Nifer yr asesiadau o fewn modiwl**

6. Wrth benderfynu ar nifer yr asesiadau o fewn modiwl, dylai Trefnydd y Modiwl:
   a. ystyried yr angen i brofi ehangder llawn y deilliannau dysgu,
   b. gall ystyried osod dilyniant o ddau asesiad cysylltiedig e.e. gosod asesiad ffurfiannol sy'n cyfri am lai o gredydau (neu ddim credydau) (hynny yw asesiad rhagarweiniol) sy'n ategu'n uniongyrchol gyflwyniad dilynol sy'n cyfri am fwy o gredydau; pan fo pwyslais y cyntaf ar ddarparu adborth ffurfiannol perthnasol,
   c. a phan fo modiwl 10 credyd yn dewis gosod un asesiad crynodol, rhaid cynnig asesiad ffurfiannol ategol, sydd â phwysoliad o sero.

7. Pan fo nifer yr asesiadau'n wahanol i'r hyn a ddangosir yn Nhabl 2 (isod), rhaid darparu cyfiawnhad dros hynny wrth ddilysu.

*Tabl 2: Nifer yr asesiadau crynodol a ganiateir fel arfer yn ôl nifer credydau'r modiwl:*

| Credydau modiwlau | Nifer yr asesiadau crynodol |
|---|---|
| <10 | 1 |
| 10 | 1 - 2 |
| 15 | 2 |
| 20 | 2 - 3 |
| 30 | 2 - 3 |
| 40 | 2 - 4 |
| 60 | 2 - 4 |

8. Eithriad i'r uchod fyddai modiwlau project ymchwil unigol Lefel 7. Gellir asesu'r modiwlau hyn trwy un asesiad e.e. traethawd hir, erthygl ar ffurf cyfnodolyn.

9. Mae'n bosibl y bydd rhai modiwlau'n strwythuro nifer o asesiadau ac iddynt bwysoliad credydau isel mewn dull 'fesul cam' sy'n cael eu hadrodd fel un asesiad. Er y caniateir hynny, dylid nodi nifer ac amseriad pob is-elfen yn y cofnod ar Worktribe. Mae angen ystyriaeth ofalus wrth adolygu'r defnydd o strwythurau asesu o'r fath o ran eu dosbarthiad dros amser a'r baich cyffredinol a brofir gan fyfyriwr ar lefel rhaglen. Ni ddylai cyfanswm yr amser paratoi ar gyfer asesiadau fod yn fwy na'r hyn a nodir yn Nhabl 1. Fe'ch cynghorir i ddefnyddio'r dull 'fesul cam' hwn yn gynnil.

**Pwysoliad credydau asesiadau o fewn modiwl**

10. Ar gyfer modiwlau o ≥15 credyd, fel rheol ni ddylai unrhyw aseiniad unigol fod â phwysoliad credydau o >80%.
11. Gellir caniatáu eithriad i fodiwlau project ymchwil unigol Lefel 7.
12. Ar gyfer modiwlau 10 credyd, gellir caniatáu eithriad os oes asesiad ac iddo bwysoliad credydau is yn gweithredu fel ymarfer ffurfiannol (rhagarweiniol), sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ail asesiad ategol y mae iddo bwysoliad credydau uwch (6b, uchod).

**Swmp asesu o fewn modiwl**

13. Rhaid i drefnwyr modiwlau sicrhau bod terfyn wedi'i nodi'n glir ar y system Worktribe o ran y swmp gwaith sy'n ofynnol (e.e. nifer y geiriau, hyd, nifer y tudalennau) ar gyfer pob asesiad a gyflwynir.
14. Darperir terfynau uchaf ar gyfer amryw o asesiadau enghreifftiol yn Nhabl 3.
15. Ar gyfer asesiadau ysgrifenedig sy'n cynnwys cyfuniad o eiriau, cod, diagramau, mapiau ac ati, gall fod yn fwy priodol fod y cyfarwyddiadau i fyfyrwyr ynghylch aseiniad yn cael eu nodi yn nhermau nifer y tudalennau. At ddibenion mewnbynnu data i Worktribe ac at ddibenion prosesau Sicrhau Ansawdd, gofynnir i staff nodi nifer y tudalennau wrth ddiffinio'r hyd, ond hefyd i gynnwys rhyw fath o derfyn geiriau er eglurder e.e. gall asesiad ar ffurf adroddiad technegol gwerth 10 credyd gael ei nodi fel uchafswm o 6 tudalen a dim mwy na 900 gair o destun (mae hyn yn llai nag a fyddai'n wir am draethawd sydd â phwysoliad credydau tebyg – oherwydd yr angen i greu mapiau, diagramau, darluniau eglurhaol ac

ati).

16. Pan fo’r swmp asesu yn wahanol i'r gwerthoedd eithaf a ddyfynnir yn Nhabl 3, dylid egluro'r sail resymegol dros y swmp hwnnw'n glir i fyfyrwyr. Er enghraifft, pan ofynnir i fyfyrwyr ysgrifennu crynodeb o ddarn hirach, mae'n debygol y bydd y nifer geiriau yn sylweddol llai nag a nodir yn yr enghreifftiau a ddangosir yn Nhabl 3.

17. Pan fo ffurf yr asesiadau’n wahanol i’r graddau bod yr enghreifftiau’n amherthnasol neu bod dim modd eu haddasu, yna rhaid amcangyfrif beth yw’r amser paratoi ar gyfer yr asesiad a nodi hynny yn y cofnod yn Worktribe ar gyfer yr asesiad hwnnw. Nodir gweithdrefn ar gyfer gwneud amcangyfrif yn Atodiad 1.

Tabl 3 (i'w ddefnyddio ar y cyd â Thabl 2): Cywerthedd swmp asesu ar gyfer gwahanol fathau o asesiadau gyda nifer nodweddiadol o gredydau modiwl. **Dylai gwerthoedd cyfwerth o ran swmp asesu gael eu cymhwyso ar sail *pro rata*** e.e. dylai traethawd sy'n werth 75% o fodiwl 10 credyd fod yn 2000 x (75/100) = uchafswm o 1500 gair. Ar gyfer modiwlau ≥10 credyd, ni ddylai unrhyw asesiad unigol fod yn >80% o bwysoliad y modiwl (eithriad fyddai traethodau hir ôl-radd hyfforddedig).

<table>
<tr><th></th><th>10 credyd<br>Amser paratoi 20 ~ 25 awr</th><th>15 credyd<br>Amser paratoi 30 ~ 37.5 awr</th><th>20 credyd<br>Amser paratoi 40 ~ 50 awr</th><th>30 credyd<br>Amser paratoi 60 ~ 75 awr</th><th>40 credyd<br>Amser paratoi 80 ~ 100 awr</th><th>60 credyd<br>Amser paratoi 120 ~ 150 awr</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Gwaith ysgrifenedig<br>Er enghraifft:<br>Traethawd<br>Briff polisi<br>Cynnig ymchwil<br>Adroddiad adfyfyriol<br>Darn gwyddoniaeth boblogaidd<br>Adolygiadau cymheiriaid</td><td>Dim mwy na 2000 o eiriau</td><td>Dim mwy na 3000 o eiriau</td><td>Dim mwy na 4000 o eiriau</td><td>Dim mwy na 6000 o eiriau</td><td>Dim mwy na 8000 o eiriau</td><td>Dim mwy na 12000 o eiriau</td></tr>
<tr><td colspan="6">Gall asesiadau ysgrifenedig lle mae angen bod yn gryno e.e. crynodebau, fod â chyfrif geiriau is neu lawer is. Eglurwch y sail resymegol i'r myfyrwyr.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Gwaith cwrs arall<br>Er enghraifft:<br>Cod cyfrifiadurol<br>Problemau rhifiadol<br>Adroddiad technegol sy'n cynnwys ffigurau, diagramau ac ati<br>Portffolio<br>Pamffled</td><td>Cyfwerth â 6 tudalen A4.</td><td>Cyfwerth â 9 tudalen A4.</td><td>Cyfwerth â 12 tudalen A4.</td><td>Cyfwerth â 15 tudalen A4.</td><td>Cyfwerth â 24 tudalen A4.</td><td>Cyfwerth â 36 tudalen A4.</td></tr>
<tr><td colspan="6">Mae nifer y tudalennau'n seiliedig ar gywerthedd ag asesiad lle ceir llawer o destun (uchod) ar gyfradd o 3 tudalen fesul 1000 o eiriau yn ffont Arial maint 12 gyda bwlch o 1.5 rhwng y llinellau.<br><br>Mae gwaith o'r fath fel arfer yn cynnwys llai o eiriau oherwydd y caiff yr amser paratoi ei dreulio yn gwneud elfennau eraill e.e. codio, datrys problemau rhifiadol, cynhyrchu ffigurau a diagramau. Pan fo'n ddefnyddiol, dylid nodi nifer geiriau hefyd. Gall nifer tudalennau fod yn llai neu'n fwy na'r hyn a nodir yma, yn dibynnu pa mor ddwys yw'r fformat e.e. efallai y bydd angen mwy o oriau o amser paratoi yn cwblhau llond tudalen o god nag yn cynhyrchu map lleoliad syml. Gall asesiadau poster amrywio'n sylweddol o ran eu cynnwys e.e. efallai byddant yn cyflwyno dadansoddiad data rhagarweiniol, neu'n cynnwys sesiwn holi ac ateb gyda'r gynulleidfa. Er enghraifft,</td></tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Poster | byddai poster A1 pan fo'i hanner yn destun maint 20pt gyda bwlch o 1.5 rhwng pob llinell yn cyfateb i ~1000 o eiriau. Yn dibynnu ar y gofyn i gyflwyno data yn y poster, gall hyn fod yn gyfwerth â 10 credyd.<br>Os yw'r gwaith yn aml-ddimensiwn, sy'n golygu ei bod yn anodd alinio'r cywerthedd â'r meini prawf uchod e.e. ymarfer sy'n gofyn am ddadansoddi data, cynhyrchu poster a thrafod mewn sesiwn ar ffurf cynhadledd, yna ystyriwch ddefnyddio'r weithdrefn a amlinellir yn Atodiad 1. | | | | | |
| **Gwaith grŵp ysgrifenedig**<br>Mae'r nifer geiriau'n ymwneud â chyfraniad personol y myfyriwr. | Dim mwy na 1500 o eiriau<br>(4.5 tudalen A4) | Dim mwy na 2300 o eiriau<br>(6 tudalen A4) | Dim mwy na 3000 o eiriau<br>(9 tudalen A4) | Dim mwy na 4500 o eiriau<br>(12 tudalen A4) | Dim mwy na 6000 o eiriau<br>(18 tudalen A4) | Dim mwy na 8000 o eiriau<br>(27 tudalen A4) |
| | Gyda gwaith grŵp ysgrifenedig gosodir tariff sy'n gyfwerth â 75% o'r hyn y byddai disgwyl i unigolyn ei wneud, gan dybio bod angen amser paratoi ychwanegol i lunio cyflwyniad grŵp cydlynol. | | | | | |

| | 10 credyd<br>Amser paratoi<br>20 ~ 25 awr | 15 credyd<br>Amser paratoi<br>30 ~ 37.5 awr | 20 credyd<br>Amser paratoi<br>40 ~ 50 awr | 30 credyd<br>Amser paratoi<br>60 ~ 75 awr | 40 credyd<br>Amser paratoi<br>80 ~ 100 awr | 60 credyd<br>Amser paratoi<br>120 ~ 150 awr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymchwil annibynnol**<br>Er enghraifft:<br>Adolygiad (cwmpasu, systematig, llenyddiaeth)<br>Erthygl mewn cyfnodolyn<br>Traethawd hir | Dim mwy na 3000 o eiriau | Dim mwy na 4000 o eiriau | Dim mwy na 6000 o eiriau | Dim mwy na 8000 o eiriau | Dim mwy na 10000 o eiriau | Dim mwy na 15000 o eiriau |
| | Yn achos y modiwlau hyn, bydd yr amser cyswllt ar ffurf addysgu mewn grwpiau bach neu ar sail un-i-un, a byddant fel arfer yn cynnwys llai o oriau cyswllt na modiwlau mwy safonol a addysgir yn y dosbarth. Mae hyn yn golygu bod yr oriau tybiannol o amser paratoi ar gyfer yr asesiad yn uwch ac felly gellir cyfiawnhau nifer geiriau uwch, fel y nodir. Efallai bod modd cyfiawnhau nifer geiriau is mewn rhai meysydd pwnc. | | | | | |
| **Arholiad yn y cnawd** | 2 awr ar y mwyaf | 3 awr ar y mwyaf | 4 awr ar y mwyaf (ar ffurf sawl | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Profion ar-lein** | | | asesiad) | | | |
| | Wrth gyfrifo hyd prawf/arholiad ar sail *pro rata*, fe'ch cynghorir i dalgrynnu i'r hanner awr agosaf e.e. bydd arholiad gwerth 60% o fodiwl 20 credyd yn cael ei gyfrifo fel 3 awr x (60/100) = 108 munud. Dylid caniatáu 2 awr.<br><br>Fel arfer cynhelir profion ar-lein y tu allan i gyfnodau arholi Prifysgol Bangor a byddant yn canolbwyntio ar gynnwys penodol yn y modiwl; byddant ar gael am sawl diwrnod neu sawl wythnos ond unwaith y cânt eu hagor, bydd terfyn amser yn berthnasol fel arfer. Gall y tariffau uchod fod yn berthnasol yn y sefyllfaoedd hynny.<br><br>Rhaid cadw at unrhyw 'amser ychwanegol' a nodir mewn Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol. | | | | | |
| **Arholiad ymarferol**<br><br>**Arholiad ar-lein** | 3 awr ar y mwyaf | 4 awr ar y mwyaf | 5 awr ar y mwyaf | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| | Wrth gyfrifo hyd arholiad ar sail *pro rata*, fe'ch cynghorir i dalgrynnu i'r hanner awr agosaf e.e. bydd arholiad gwerth 60% o fodiwl 20 credyd yn cael ei gyfrifo fel 3 awr x (60/100) = 108 munud. Dylid caniatáu 2 awr.<br><br>Mae fersiynau ar-lein ("i'w gwneud adref") o arholiadau fel arfer ar gael i'w cwblhau o fewn cyfnod o ≤12awr yn ystod cyfnod arholiadau Prifysgol Bangor ac yn aml byddant yn asesu darnau mawr o gynnwys y modiwl. Dylid cynllunio'r asesiad fel bod modd ei gwblhau o fewn y tariffau uchod.<br><br>Yn ystod arholiadau ymarferol >3 awr o hyd, dylid caniatáu cyfnodau digonol i gael seibiant e.e. bwyd a diod.<br><br>Rhaid cadw at unrhyw 'amser ychwanegol' a nodir mewn Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol. | | | | | |

| | 10 credyd<br>Amser paratoi<br>20 ~ 25 awr | 15 credyd<br>Amser paratoi<br>30 ~ 37.5 awr | 20 credyd<br>Amser paratoi<br>40 ~ 50 awr | 30 credyd<br>Amser paratoi<br>60 ~ 75 awr | 40 credyd<br>Amser paratoi<br>80 ~ 100 awr | 60 credyd<br>Amser paratoi<br>120 ~ 150 awr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad llafar unigol**<br>Er enghraifft:<br>Seminar fyw yn y dosbarth<br>Seminar wedi'i recordio | 20 munud ar y mwyaf | 30 munud ar y mwyaf | 40 munud ar y mwyaf | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| | Mae cyflwyniadau ar Lefel 3 a 4 yn debygol o fod ychydig yn fyrrach o ran hyd na'r gwerthoedd uchaf a nodir yma. Byddai amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth yn cael ei ystyried yn ychwanegol at y gwerthoedd hyn ond ni fyddai fel arfer yn fwy na 50% o'r amser cyflwyno.<br>Dylai unrhyw fformat sy'n gofyn am sgiliau technegol newydd gynnwys yr amser ar gyfer addysgu'r sgiliau hynny o fewn yr amser addysgu (nid fel rhan o'r amser paratoi ar gyfer asesiadau). | | | | | |
| **Cyflwyniad llafar mewn grŵp**<br>Er enghraifft:<br>Seminar fyw yn y dosbarth<br>Seminar wedi'i recordio<br>Podlediad | Cyfraniad personol<br>15 munud ar y mwyaf | Cyfraniad personol<br>23 munud ar y mwyaf | Cyfraniad personol<br>30 munud ar y mwyaf | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| | Mae cyflwyniadau ar Lefel 3 a 4 yn debygol o fod ychydig yn fyrrach o ran hyd na'r gwerthoedd uchaf a nodir yma. Caiff amseroedd cyfraniadau unigol eu lleihau oherwydd y bydd angen rhagor o amser paratoi fwy na thebyg i drefnu a llunio cyflwyniad fel tîm. Byddai amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth yn cael ei ystyried yn ychwanegol at y gwerthoedd hyn ond ni fyddai fel arfer yn fwy na 50% o'r amser cyflwyno.<br>Dylai unrhyw fformat sy'n gofyn am sgiliau technegol newydd gynnwys yr amser ar gyfer addysgu'r sgiliau hynny o fewn yr amser addysgu (nid fel rhan o'r amser paratoi ar gyfer asesiadau). | | | | | |
| **Cyfweliad / asesiad llafar** | 30 munud ar y mwyaf | 40 munud ar y mwyaf | 50 munud ar y mwyaf | 60 munud ar y mwyaf | 60 munud ar y mwyaf | 60 munud ar y mwyaf |
| | Ni ddylai'r math hwn o asesiad fel arfer gyfrif am fwy na 30% o farc modiwl. Dylid darparu asesiad ffurfiannol ategol priodol os nad yw'r myfyrwyr yn gyfarwydd â'r math hwn o asesiad. Fel canllaw ychwanegol: mae 30% o fodiwl 10 credyd yn cyfateb i 9 munud; 12 munud ar gyfer modiwl 15 credyd; 15 munud ar gyfer modiwl 20 credyd; ac ar gyfer modiwlau sy'n werth mwy o gredydau, ni ddylai'r hyd fod yn hwy na 18 munud. Gellid ystyried cyfnodau byrrach e.e. ar gyfer Lefelau 3 a 4, er y dylid rhoi ystyriaeth ofalus wrth ddefnyddio'r math | | | | | |

| | |
|---|---|
| | hwn o asesiad ar y lefelau hynny. |

| | 10 credyd<br>Amser paratoi<br>20 ~ 25 awr | 15 credyd<br>Amser paratoi<br>30 ~ 37.5 awr | 20 credyd<br>Amser paratoi<br>40 ~ 50 awr | 30 credyd<br>Amser paratoi<br>60 ~ 75 awr | 40 credyd<br>Amser paratoi<br>80 ~ 100 awr | 60 credyd<br>Amser paratoi<br>120 ~ 150 awr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Recordiad fideo gan unigolyn wedi ei sgriptio a'i olygu.** | 6 munud ar y mwyaf | 9 munud ar y mwyaf | 12 munud ar y mwyaf | 15 munud ar y mwyaf | Amherthnasol | Amherthnasol |
| | Cydnabyddir bod y gwerthoedd hyn yn ddibynnol iawn ar ystod o wahanol sefyllfaoedd posibl. Cymerir yn ganiataol yma bod y fideos wedi'u sgriptio, eu storifyrddio, yn cynnwys rhywfaint o draethu neu drosleisio, ac wedi'u hisdeitlo.<br>Dylai unrhyw fformat sy'n gofyn am sgiliau technegol newydd gynnwys yr amser ar gyfer addysgu'r sgiliau hynny o fewn yr amser addysgu (nid fel rhan o'r amser paratoi ar gyfer asesiadau).<br>Os yw'r gwaith yn aml-ddimensiwn, sy'n golygu ei bod yn anodd alinio'r cywerthedd â'r meini prawf uchod, yna ystyriwch ddefnyddio'r weithdrefn a amlinellir yn Atodiad 1. | | | | | |

## Gofynion Penodol - Rhaglenni

### Nifer yr Asesiadau ar Draws Rhaglen

18. Fel rhan o'r adolygiad blynyddol o raglenni (drwy'r broses QA1 a QA2), dylid monitro ac adolygu nifer, dosbarthiad dros amser, a'r mathau o asesiadau a gaiff myfyrwyr ar bob lefel, a nodi cynlluniau gweithredu perthnasol.

19. Pan fo cyfanswm yr asesiadau'n fwy na 18 ar draws unrhyw lefel benodol (h.y. cyfartaledd o fwy na thri asesiad fesul 20 credyd), mae'n bosibl bod staff a myfyrwyr yn profi gorasesu. Felly mae angen rhoi sylw a chyfiawnhad penodol i faich asesu sy'n uwch na'r lefel hon wrth adolygu a/neu gymeradwyo fel rhan o'r prosesau Sicrhau Ansawdd. Y ffigur arweiniol hwn yw'r *trothwy i sbarduno* adolygiad penodol gan Gyfarwyddwr y Rhaglen neu unigolyn cyffelyb; nid terfyn uchaf absoliwt yw os oes rheswm addysgegol sy'n cyfiawnhau bod â nifer uwch o asesiadau. Fodd bynnag, dylid craffu ar adborth myfyrwyr ac ar d data perfformiad myfyrwyr a'u hadolygu dan amgylchiadau o'r fath, a dylid adrodd am hyn fel rhan o'r broses QA1.

### Dosbarthu dyddiadau cyflwyno asesiadau dros amser ar draws rhaglen

20. Rhaid i ysgolion, cyn dechrau pob tymor, gynnal gwiriadau i osgoi gwrthdaro neu glystyru gormodol o ran terfynau amser ar lefel rhaglen, yn enwedig ar gyfer aseiniadau â phwysoliad credydau uchel.

21. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd y baich asesu'n amrywio ar draws semester. O bryd i'w gilydd, bydd cyfnod paratoi hir cyn dyddiad cyflwyno (fel arfer yn achos darnau ysgrifenedig hwy) sy'n gofyn am sgiliau rheoli amser. Dylid annog a chefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau a strategaethau yn hyn o beth. Dylai gwybodaeth ar lefel modiwl neu raglen gyfeirio myfyrwyr at wybodaeth am gefnogaeth o'r fath.

## Atodiad 1: Gweithdrefn ar gyfer amcangyfrif yr Amser Paratoi ar gyfer Asesiadau ar gyfer mathau o asesiad sydd heb eu cynnwys yn yr enghreifftiau.

Ar gyfer mathau o asesiad sydd heb eu cynnwys yn yr enghreifftiau a roddir, mae'n rhaid ystyried y baich asesu o hyd, rhaid iddo alinio gyda'r nifer o asesiadau, y pwysoliad credydau a'r swmp asesu, a rhaid adrodd am hynny yn nogfennaeth y modiwl ar Worktribe.

Mae'r weithdrefn a amlinellir isod yn darparu dull systematig o amcangyfrif yr amser paratoi ar gyfer asesiadau i fyfyrwyr. Mae'n golygu:

1. ystyried y ffactorau a all ddylanwadu ar yr amser paratoi ar gyfer yr asesiad yn achos yr asesiad dan sylw,
2. torri'r broses baratoi yn gydrannau ac amcangyfrif yr amser paratoi ar gyfer pob cydran, gan ddefnyddio'r Tabl Amcangyfrif (isod).
3. cymharu cyfanswm yr amser paratoi ar gyfer yr asesiad gyda'r terfynau a ganiateir a roddir yn Nhabl 1 (t.3)
4. addasu cynnwys yr asesiad, pwysoliad yr asesiad neu'r dull addysgu er mwyn cysoni'r pwysoliad asesu gyda'r hyn sy'n cael ei ganiatáu fel amser paratoi ar gyfer asesiadau
5. gwirio synnwyr – gwirio'r amcangyfrif cychwynnol o'r amser paratoi ar gyfer yr asesiad gyda chydweithwyr proffesiynol a chyda'r garfan o fyfyrwyr; a chynnal adolygiad yn dilyn yr asesiad gyda'r garfan o fyfyrwyr.
6. uwchlwytho'r Tabl Amcangyfrif Amser Paratoi ar gyfer yr Asesiad yn y tab 'Dogfennau' ar dudalen y modiwl ar Worktribe.

## Y Weithdrefn

Tybir y bydd y pwysoliad asesu wedi cael ei bennu dros dro ar ddechrau'r broses o ddatblygu'r rhaglen ac yn adlewyrchu i ba raddau mae'r canlyniadau dysgu a fwriadwyd yn cael eu profi gan yr asesiad.

1. Ystyriwch ac adfyfyriwch ar y ffactorau canlynol a all ddylanwadu ar yr amser paratoi ar gyfer yr asesiad:
    a. Natur yr "asesiad" i'w gyflwyno, o'i gymharu â'r ymdrech baratoadol:
    Gallai rhai mathau o gyflwyniad ymddangos fel swmp bach iawn ond eu bod yn seiliedig ar lawer o waith paratoadol sy'n llai amlwg. Fel arfer, ymchwil academaidd fydd hyn, ond gallai hefyd gynnwys elfennau ymarferol megis casglu data, neu yn achos gwaith grŵp, ffactorau ymarferol trefnu cyfarfodydd rhwng aelodau'r grŵp. Mewn rhai meysydd academaidd e.e. cynhyrchu gwaith creadigol, efallai mai cyfran fach iawn o gyfanswm yr ymdrech yw 'asesiad a gyflwynir', neu efallai nad yw swmp yr asesiad a gyflwynir yn fesur perthnasol. Mae'n bwysig, felly, nodi ymdrech baratoadol o'r fath wrth gyfrifo'r amser paratoi ar gyfer yr asesiad.
    b. Cymhlethdod a chwmpas:
    Gall dyfnder ac ehangder cynnwys yr asesiad effeithio'n fawr ar yr amser paratoi. Yn ddigon naturiol, bydd angen mwy o amser i ddeall a rhoi sylw i bynciau mwy cymhleth neu i gwmpas ehangach.

c. Gwybodaeth flaenorol
Gall pa mor gyfarwydd yw myfyrwyr â'r pwnc ddylanwadu ar faint o amser sydd ei angen arnynt. Os ydynt eisoes yn gyfarwydd â'r pwnc, efallai y bydd angen llai o amser paratoi arnynt o gymharu â phwnc llai cyfarwydd.

d. Tybiaeth ynghylch sylfaen sgiliau blaenorol:
Gall sylfaen sgiliau presennol myfyrwyr ddylanwadu'n fawr ar yr amser paratoi e.e. yr angen am sgiliau codio, sgiliau amlgyfrwng, bod yn gyfarwydd â meddalwedd cysylltiedig, sgiliau cyfweld ac ati. Ystyriwch, hyd yn oed mewn achosion pan fo'r sgiliau'n rhan o'r modiwl (neu o fodiwlau blaenorol), pa lefel o arbenigedd sydd gan y myfyrwyr a faint o ddysgu a datblygiad a ddisgwylir fel rhan o'r paratoadau asesu, yn hytrach na dim ond cymhwyso sgiliau ar eu lefel gyfredol o arbenigedd.

e. Argaeledd adnoddau:
Gall argaeledd adnoddau angenrheidiol megis gwerslyfrau, erthyglau, cofnodion cyhoeddus, data archif, a deunyddiau ar-lein effeithio ar amser paratoi. Os yw'r adnoddau ar gael yn rhwydd, gall myfyrwyr dreulio mwy o amser yn paratoi eu cyflwyniad, yn hytrach na chwilio am ddeunyddiau a gwybodaeth.

f. Adborth a diwygio:
Caniatewch amser i fyfyrwyr adolygu a diwygio eu gwaith os oes elfennau ffurfiannol megis adolygiad gan gymheiriaid neu addysgwyr.

2. Rhannwch y gwaith paratoi ar gyfer yr asesiad yn gydrannau. Adfyfyriwch ar lefel her pob cydran, ar sail yr ystyriaethau uchod a'ch barn broffesiynol. Amcangyfrifwch pa mor hir y bydd pob cydran yn ei gymryd i'w wneud a chyfrifwch y cyfanswm. Rhoddir enghreifftiau generig o gydrannau yn Nhabl 4 (sylwer nad yw'r enghreifftiau hyn yn seiliedig ar un asesiad).

**Tabl 4: Tabl Amcangyfrif Amser Paratoi ar gyfer Asesiad**

| **Elfen** | **Her** | **Amcangyfrif o'r lwfans amser** |
|---|---|---|
| Gweinyddu cyfarfodydd tîm | Nid yw'r dosbarth hwn yn y flwyddyn gyntaf yn adnabod ei gilydd, ond maent wedi'u dyrannu i grwpiau ar ffurf 'Timau' | 2 awr |
| Diffinio'r syniad | Maen nhw wedi gwneud hyn sawl gwaith o'r blaen yng nghyd-destun pwnc tebyg | 1 awr |
| Dylunio sut i gaffael data / cynnal arolwg | Mae gan y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ond nid pob dosbarth brofiad o wneud hyn. | 4 awr |
| Mynd yn y cnawd i lyfrgelloedd lleol i ddod o hyd i ffynonellau gwreiddiol a'u darllen | Dyma'r tro cyntaf i'r rhan fwyaf wneud hyn | 12 awr |
| Ysgrifennu a phrofi cod i addasu'r model cyfrifiadurol | Mae'n fodel sy'n gyfarwydd iawn iddynt, maent wedi cael tasgau codio | 2 awr |

| | | |
|---|---|---|
| | helaeth o'r blaen ac mae'r addasiadau gofynnol yn fach. | |
| Ysgrifennu a phrofi cod i addasu'r model cyfrifiadurol | Ceir rhagarweiniad i'r model fel rhan o'r modiwl a dim ond disgrifiad byr ohono a geir yn y dosbarth; mae angen darllen pellach. Er bod gan y myfyrwyr brofiad codio, cyfyngedig yw'r profiad hwnnw, ac mae rhan o'r asesiad yn profi eu gallu i hunanddatblygu eu sgiliau codio. Mae'r addasiadau gofynnol yn gymharol fach. | 6 awr |
| Ymarfer perfformio | Mae profiad yn dangos, ar gyfer hyd y perfformiad dan sylw, y bydd yn debygol o gymryd chwe sesiwn, 3 awr. | 18 awr |
| Cyfweld | Mae'r dosbarth yn gyfarwydd â chynnal cyfweliadau; mae'r sesiynau ar y campws ac wedi'u trefnu ymlaen llaw ac felly nid oes angen neilltuo llawer mwy o amser na hyd gwirioneddol y cyfweliadau. | 16 awr |
| Creu bwrdd stori | Dyma'r tro cyntaf iddyn nhw greu bwrdd stori yn annibynnol, ond fe fyddan nhw wedi paratoi un fel grŵp yn y semester blaenorol. | 6 awr |
| Cynhyrchu 'darn mynegi barn' i gynulleidfa benodol gan ddefnyddio dau fodel deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (penodol) sy'n gweithio ar sail model iaith mawr a… | Caniateir defnyddio hyd at bum 'prompt' i fireinio'r darn a rhaid i'r myfyrwyr roi sylwadau ar ymateb y modelau i'r promptiau. Maent wedi cael y dolenni perthnasol i'r ddau fodel deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol sy'n gweithio ar sail model iaith mawr ond yn y dosbarth dim ond ChatGTP 3.5 y maent wedi'i weld yn cael ei arddangos. | 5 awr |
| … gwerthuso cywirdeb ffeithiol y cynnwys terfynol a gynhyrchwyd. Profi ac adrodd ar gywirdeb o leiaf bum honiad a wnaed yn y darnau (600 gair neu lai) | Byddwch yn hael a thybio bod angen 1 awr i brofi pob hawliad. | 10 awr |
| **Cyfanswm yr Amser Paratoi sy'n cael ei Amcangyfrif ar gyfer yr Asesiad** | | |

3. Edrychwch ar Dabl 4 a nodwch yr amser paratoi tybiannol ar gyfer yr asesiadau gyda'r un pwysoliad. Cymharwch hynny gyda chyfanswm yr amser paratoi sydd wedi ei amcangyfrif ar gyfer yr asesiad.
4. Pan nad yw'r ddau amser yn cyd-fynd â'i gilydd o gwbl e.e. gwahaniaeth o >20% rhwng yr amser paratoi sydd wedi ei amcangyfrif a'r amser paratoi sy'n cael ei ganiatáu, gwnewch addasiadau yn ôl yr angen. Gall yr addasiadau gynnwys newid y gofynion yr asesiad ond gallent hefyd gynnwys, er enghraifft, darparu rhagor o

gefnogaeth a hyfforddiant. Ar ôl addasu, ewch trwy’r broses o amcangyfrif yr amser paratoi ar gyfer yr asesiad eto nes ei fod yn gyson â'r terfyn sy’n cael ei ganiatáu (Tabl 1).

5. Ymgynghorwch â chydweithwyr i wirio'ch dull gweithredu, er enghraifft; a ydych wedi ystyried holl gydrannau'r gwaith paratoi ac a yw’r amcangyfrifon amser yn briodol. Yn yr un modd, gallech ystyried gwirio'ch amcangyfrifon gyda'r garfan o fyfyrwyr *cyn* cynnal yr asesiad. Y tro cyntaf i chi ei gynnal, rhaid i chi ymgynghori â'r garfan o fyfyrwyr ar ôl marcio a rhoi adborth, i drafod eu canfyddiadau nhw o'r amser paratoi ar gyfer yr asesiad. Adroddwch hyn yn yr Adolygiad Blynyddol o’r Modiwl a nodwch unrhyw gamau gweithredu, pe bai angen.
6. At ddibenion dilysu, atodwch y Tabl Amcangyfrif Amser Paratoi ar gyfer Asesiad i gofnod y modiwl ar Worktribe o dan y tab Dogfennau.